# Pennaeth Gwasanaethau TG

Cyflog: £74,388 - £78,489 y flwyddyn (Gradd 16)

Math o Gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Mae CBAC, sy'n adnabyddus yn y byd addysg yng Nghymru, yn un o brif ddarparwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt ar draws y DU. Mae rhaglen eang o drawsnewid yn digwydd yma ar hyn o bryd, y mae llawer ohoni'n dibynnu ar roi strategaeth TG weithredol ar waith yn ofalus, a'r rôl Pennaeth Gwasanaethau Busnes TG fydd yn ysgogi hynny'n bennaf.

Gan weithio dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid, y rôl amrywiol, gyffrous a diddorol hon yw'r prif gyswllt gweithredol rhwng TG a'r corff yn ehangach. Deiliad y rôl fydd perchennog y strategaeth TG ar waith, gan benderfynu pa brosesau busnes sy'n perthyn i bob system a sut y gellir datblygu'r systemau hynny i gynnig gwell gwasanaeth i'r corff. Byddwch chi'n rheoli'r swyddogaethau Deallusrwydd Busnes, Gweithrediadau TG a'r Ddesg Gymorth TG.

Dylai'r ymgeisydd delfrydol, yn ogystal â meddu ar wybodaeth eang o TG, fod yn ysbrydoledig fel arweinydd ac yn gallu cymell eraill. Dylai fod â thystiolaeth o ddylunio a chyflwyno gwelliannau gwasanaeth yn llwyddiannus. Byddan nhw'n unigolion strategol, gyda chraffter mewn busnes sydd hefyd yn deall nodweddion cynnil gweithio mewn sectorau wedi'u rheoleiddio sy'n dibynnu'n fawr ar systemau TG. Byddan nhw'n gyfathrebwr cryf sy'n mwynhau gweithio ar draws adrannau ac yn rhagori yn ystod cyfnodau o brysurdeb dwys sy'n codi yn ystod projectau trawsnewid.

Swydd newydd gyffrous yw hon sy'n cynnig cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus ysgogi gwelliant ar draws amrywiaeth o swyddogaethau TG, gan wneud gwahaniaeth go iawn i allu CBAC i gyflwyno cymwysterau i ddysgwyr ledled y DU.

**Y Contract:**
Swydd hybrid yw'r rôl hon, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion y busnes. Dylai deiliaid y rôl fod yn barod i weithio o'n swyddfa yng Nghaerdydd o leiaf un diwrnod yr wythnos. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fanteisiol, ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn buddion diffiniedig CARE (CPLlL) a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, cysylltwch â Fliss (hi) drwy (AD@cbac.co.uk), bydd hi'n fwy na pharod i siarad â chi.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: Dydd Sul, 12 Ionawr 2025

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | **Pennaeth Gwasanaethau TG** |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |
| **Isadran:** | Gwasanaethau Busnes |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid |
| **Gradd:** | 16 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd – Hybrid |

## Prif bwrpas y Swydd:

Y Pennaeth Gwasanaethau TG yw arweinydd strategol ein hadran gwasanaethau busnes TG. Ymhlith eu prif gyfrifoldebau mae:

- Strategaeth Cymwysiadau gan gynnwys mapio buddsoddiad cymwysiadau
- Cyflenwi Gwasanaethau TG – Gweithrediadau TG a'r Ddesg Gymorth TG
- Swyddogaeth gorfforaethol Dadansoddi Busnes
- Profi
- Deallusrwydd Busnes

Bydd deiliad y swydd yn cynnig arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad i'n gwasanaethau busnes TG, gan sicrhau bod gwasanaeth TG effeithiol wedi'i gyflenwi ar draws y corff.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

### Rôl Arwain

- Arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth Gwasanaethau Busnes effeithiol i CBAC; gweithredu fel arweinydd ar systemau busnes mewn fforymau gwneud penderfyniadau allweddol megis AMG, gan ystyried gofynion, eu blaenoriaethu ac yna darparu amserlenni cyflenwi
- Chwilio am gyfleoedd allanol i'w pwyso a'u mesur, gan ddychwelyd â nhw a'u cymhathu'n rhan o'r strategaeth a chynllun gwaith cyffredinol. Mae'r rhain yn gyfleoedd technegol a swyddogaethol
- Symleiddio a chyflwyno dewisiadau ac argymhellion cryno ar benderfyniadau buddsoddi i ddylanwadu ar uwch randdeiliaid ynghylch materion strategol cymhleth
- Cyfrannu'n strategol at arwain a rheoli'r Gyfarwyddiaeth Digidol a Thrawsnewid yn ogystal â chyfrannu at waith ar draws swyddogaethau i gefnogi ein hamcanion fel Cyfarwyddiaeth ac yn gorfforaethol
- Nodi DPU, crynhoi a chyflwyno adroddiadau misol ffurfiol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid ynghylch perfformiad timau sy'n atebol i'r rôl
- Gosod y weledigaeth, ysbrydoli ac arwain timau er mwyn datblygu a sicrhau datrysiadau ystwyth, a fydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth effeithiol yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth
- Gweithio ar draws swyddogaethau er mwyn datblygu, gwella a gweithredoli prosesau newydd sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth ac yn gorfforaethol

- Cyfrannu at weithgarwch strategol perthnasol arall. Mae hyn yn cynnwys drwy ymgysylltu â'r holl adrannau ar draws swyddogaethau yn ôl y gofyn i gyflawni amcanion / DPA y corff.
- Arwain contractau allanol neu gytundebau gwasanaeth perthnasol ar lefel uwch mewn perthynas â darparu gwasanaethau gweithredol
- Bod yn rheolwr llinell ar y timau Gwasanaethau TG, Profi, Deallusrwydd Busnes a Dadansoddi Busnes
- Bod yn rheolwr cyllideb ar gyfer staff a chyflenwyr sy'n dod o fewn cwmpas y tîm – mae hyn yn cynnwys y gyllideb cynnal a chadw meddalwedd ar gyfer yr holl systemau busnes
- Cydweithio'n agos â'r adrannau Gwasanaethau Technegol TG a SRhP i sicrhau bod newid yn digwydd ar yr un pryd â chyflenwi gwasanaethau cadarn

**Gweithrediadau a Desg Gymorth TG**

- Sicrhau bod Gwasanaethau Desg Gymorth a Gweithrediadau TG yn cael eu trefnu a'u cyflenwi'n effeithlon
- Cynrychioli'r swyddogaeth yn fewnol ac yn allanol mewn fforymau busnes perthnasol

**Dadansoddi Busnes a Phrofi**

- Sicrhau bod y broses Dadansoddi Busnes yn cwrdd â gofynion y busnes a bod digon o herio wedi digwydd i optimeiddio proses cyn ei chyflwyno i dimau technegol
- Llofnodi'n derfynol bod cymwysiadau'n diwallu gofynion y busnes.

**Deallusrwydd Busnes**

- Atebolrwydd am y tîm Deallusrwydd Busnes, gan sicrhau bod dangosfyrddau ar gael a gofynion wedi'u blaenoriaethu a'u cyflenwi.

**Cyllidebu a Rheoli Costau**

- Atebolrwydd cyffredinol a chyfrifoldeb am reoli cyllidebau'n effeithiol ym mhob maes yn ymwneud â'r timau Gweithrediadau perthynol.

**Arall**

- Arwain, cymell ac ysbrydoli datblygiad staff er mwyn galluogi sicrhau cyflwyno cynlluniau busnes; hyfforddi a mentora eraill i feithrin dawn a chynyddu gallu
- Bod yn fodel rôl amlwg ac ysbrydoledig, sy'n atgyfnerthu gwerthoedd craidd y corff
- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Ymdrechu i sicrhau bod aelodau o'r tîm wedi'u hyfforddi ac yn cydymffurfio hefyd
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd, gan gynnwys dirprwyo dros y Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |

Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau cyfathrebu ardderchog gyda'r gallu i ryngweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a dylanwadu arnynt, gan sicrhau y cyfnewidir gwybodaeth yn glir ac effeithiol
- Y gallu i feddwl ymlaen gyda chraffter busnes da er mwyn gallu dehongli, dylunio, cyflenwi a gweithredu cynlluniau a phrosesau strategol, gan gynnal effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y corff
- Sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf, gan allu adnabod lle mae angen newid a gallu defnyddio adnoddau mewnol ac allanol cost effeithiol i roi datrysiadau arloesol ac effeithiol ar waith
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol; y gallu i flaenoriaethu gwaith ar draws amrywiol randdeiliaid ac adrannau, gan gwrdd â therfynau amser sy'n gwrthdaro
- Craff yn ystadegol, gyda'r gallu i goladu a dadansoddi data; gan gynhyrchu ffeithluniau dibynadwy i lywio penderfyniadau busnes

**Dymunol**

- Y gallu i reoli risgiau a thechnolegau sy'n newid mewn ffordd ragweithiol a phragmataidd, gan sicrhau bod y tîm yn parhau i fod yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sgiliau iaith Gymraeg

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Dealltwriaeth o sut i greu a gweithredu strategaeth cymwysiadau, yn ddelfrydol drwy gyfuniad o gymwysiadau pwrpasol a COTS
- Profiad o blatfformau isadeiledd ar y safle a chwmwl fel Azure ac AWS, gan feddu ar wybodaeth eang o Office 365 ac Active Directory
- Gwybodaeth weithiol dda o wahanol systemau meddalwedd, pensaernïaeth cleientiaid/gwasanaethau a gofynion cydnawsedd amrywiol
- Gwybodaeth am brosesau rheoli projectau, yn ddelfrydol cymhwyso rhaglenni trawsnewid TG
- Gwybodus o ran arferion gorau ITIL, rheoli gwasanaethau ac egwyddorion gwelliant parhaus
- Dealltwriaeth dda o Fapio Proses Busnes a'i chymhwyso

**Dymunol**

- Gwybodaeth weithiol am reoli a dadansoddi cyllidebau/materion ariannol
- Gwybodaeth am y sector addysg a systemau arholiadau perthnasol

## Profiad

**Hynod Ddymunol:**

- Tystiolaeth o sgiliau arwain, mentora a rheoli i ysbrydoli a datblygu staff TG ar draws amryfal ddisgyblaethau, o fewn fframwaith ITIL yn ddelfrydol ac mewn sector reoleiddiol sy'n dibynnu'n gritigol ar systemau TG
- Profiad ymarferol yn arwain projectau TG o fewn cylchred oes busnes lawn
- Tystiolaeth o brofiad yn cydbwyso gweithrediadau o ddydd i ddydd â chynllunio a gweithredu buddsoddiad yn y tymor hir
- Profiad blaenorol o ymgymryd â dadansoddi a gwella/dylunio newid systemau

**Dymunol:**

- Profiad blaenorol yn rheoli cyllidebau a rhagolygon TG; nodi dyrannu adnoddau mewn ffordd gost-effeithiol i ddiwallu anghenion busnes
- Profiad yn ysgogi a chynnal perthnasoedd cyflenwyr; trafod contractau a goruchwylio perfformiad gwasanaethau trydydd parti i sicrhau eu bod yn cyfateb i nodau strategol
- Profiad ymgynghori

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Cymhwyster gradd neu brofiad gwaith perthnasol.

**Dymunol**

- Cymhwyster rheoli projectau

## Gofynion Eraill

**Hynod Ddymunol**

- Ffynnu wrth weithio ar draws swyddogaethau mewn amgylchedd prysur a chymhleth.

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | Pennaeth Gwasanaethau Busnes TG | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £74,388 - £78,489 y flwyddyn | **Gradd:**<br>**Gradd:** | 16 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** |
|---|---|
| ☒ Llawn amser / Full Time | |
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** |
| ☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** |
| ☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** / / |
| | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** 36.5 |

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn dydd Sul, 12 Ionawr 2025.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by Sunday 12 January 2025.